PWYLLGOR CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU

31 Gorffennaf 2019

Yn bresennol: Mrs J James (Cadeirydd)
Mr Allan Archer, Cynghorydd D Clements, Cynghorydd K Doolin, Dr R Plummer a'r Cynghorydd M Williams.

(Swyddfeydd yr APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 3.00pm – 3.30pm)

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney a'r Cynghorydd A Wilcox.

2. Datgan Buddiannau

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Mai ac ar 5 Mehefin 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Mai ac ar 5 Mehefin 2019.

4. Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau

a) <u>Cynllun Cyfeillio/Mentora</u>

Dywedwyd mai un o'r meini prawf ar gyfer statws Siarter Uwch oedd bod yr Aelodau yn cael cyfle i gael eu mentora gan gymheiriaid sy'n Aelodau. Awgrymwyd yn y cyfarfod diwethaf y gallai cynllun 'cyfeillio' llai ffurfiol fod yn fwy priodol na rhaglen fentora ffurfiol, ac roedd drafft i'w ystyried wedi'i atodi i'r adroddiad. Diolchodd y Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd i'r Cadeirydd am ei chymorth a'i chefnogaeth wrth ddrafftio'r ddogfen.

Roedd peilot o'r cynllun wedi'i lansio am gyfnod prawf o chwe mis gyda'r Aelodau a benodwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Byddai rhywfaint o werthuso'r cynllun yn cael ei wneud, a byddai adroddiad ar y gwerthuso hwn yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor. Byddai'r Awdurdod wedyn yn gwneud penderfyniad ynglŷn â mabwysiadu'r Cynllun.

Cytunodd rhai Aelodau y byddent wedi gweld y cyfryw Gynllun yn ddefnyddiol adeg ymuno â'r Awdurdod, a chanmolwyd y cynllun.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Cynllun Cyfeillio a'i ddefnyddio fel trefniant peilot gyda'r Aelodau oedd newydd eu penodi gan Lywodraeth Cymru.

b) Y Meini Prawf ar gyfer Statws Siarter Uwch

Atgoffwyd yr Aelodau bod y ddogfen Meini Prawf oedd ynghlwm wrth yr adroddiad wedi cael ei hystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 8 Mai 2019, a bod y ddogfen yn nodi'r gwaith yr oedd yr Awdurdod eisoes wedi'i wneud, ac yn nodi'r hyn yr oedd angen ei gyflawni cyn gallu cyflwyno cais am Siarter Uwch. Dywedwyd bod y ddogfen wedi'i diweddaru ers y cyfarfod diwethaf i amlygu'r camau oedd wedi'u cymryd.

Gan ddiolch i'r Cadeirydd a'r Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd am eu gwaith, roedd rhai Aelodau serch hynny, yn cwestiynu a oedd yr Aelodau yn ddigon awyddus i gyflawni'r gwaith sy'n ofynnol i lwyddo i gyrraedd Statws Siarter Uwch, yn enwedig o ran yr Adolygiadau o Ddatblygiad Personol. Cytunodd Aelodau eraill mai mater i'r Pwyllgor oedd hyrwyddo'r gwaith ac annog Aelodau eraill i gymryd rhan.

PENDERFYNWYD nodi'r ddogfen meini prawf a bod y Cadeirydd a'r Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd yn parhau i fwrw ymlaen â'r camau a amlinellir yn y ddogfen.